# APA14

General Medical Council

# Ffurflen Gais

Dylech ddefnyddio'r ffurflen gais hon am y rhesymau canlynol:

- **Rydych chi'n gydymaith anaesthesia cwbl gymwys ac mae gennych gymhwyster cydymaith anaesthesia sylfaenol gan ddarparwr cwrs yn y DU**

AC

- **NAD oeddech ar y gofrestr wirfoddol a reolir a gynhelir gan Goleg Brenhinol yr Anaesthetyddion (RCoA) ar 13 Rhagfyr 2024**

AC

- **Os ydych chi eisiau gwneud cais i gofrestru fel cydymaith anaesthesia ond allwch chi ddim gwneud hyn drwy ein system ar-lein**

Mae'r GMC yn elusen sydd wedi ei chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750)

Cyn cyflwyno'r ffurflen gais hon, edrychwch ar y tudalennau canlynol ar ein gwefan:

Cofrestru fel cydymaith anaesthesia nad oedd ar gofrestr wirfoddol o'r blaen: https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-our-registers/registration-applications/application-guides/registration-guidance-for-UK-qualified-AAs

Bydd yr wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan y GMC er mwyn:

- Prosesu eich cais
- Diweddaru'r cofrestrau
- Gweinyddu a chynnal eich cofrestriad
- Prosesu cwynion
- Casglu ystadegau a gwneud gwaith ymchwil
- Anfon canllawiau, newyddion a gwybodaeth am y GMC atoch.

## Ysgrifennwch yn glir gydag inc du, a defnyddiwch briflythrennau

*Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, rydym ni yn y GMC yn sicrhau ein bod yn trin data personol yn ofalus iawn. Mae gennym bolisi preifatrwydd ar waith i ganiatáu i 'destunau data' fel chi fod yn gwbl ymwybodol o sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol. Os hoffech ddarllen ein polisi preifatrwydd, ewch i https://www.gmc-uk.org/privacy-and-cookies.*

## Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais hon, darllenwch yr wybodaeth isod:

Yn y ffurflen hon, bydd y symbol canlynol yn dangos bod angen tystiolaeth ddogfennol: ⓘ

Bydd angen i chi gyflwyno'r canlynol o leiaf:

- Tystysgrif Statws Proffesiynol Cyfredol (sydd weithiau'n cael ei galw'n Dystysgrif Statws Da) os ydych wedi meddu ar gofrestriad a/neu drwydded gydag unrhyw awdurdod neu reoleiddiwr gofal iechyd, yn y DU neu dramor, yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Bydd angen i'r dystysgrif hon gael ei darparu'n uniongyrchol gan y sefydliad. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Dystysgrif Statws Proffesiynol Cyfredol (CCPS) ar ein gwefan (https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-our-registers/registration-applications/certificate-of-current-professional-status-for-pas-and-aas.)
- Cyfieithiadau o unrhyw ddogfennau nad ydynt ar gael yn Saesneg
- Copi o'ch cymhwyster cydymaith anaesthesia
- Copïau o dystiolaeth sy'n dangos eich bod wedi llwyddo yn nwy ran yr asesiad cofrestru ar gyfer Cydymaith Anaesthesia (AARA)
- Copi o'ch pasbort neu drwydded yrru'r DU

Bydd angen rhagor o wybodaeth arnom ar gyfer rhai o'r cwestiynau yn y ffurflen hon. Pan ofynnir i chi wneud hynny, nodwch eich ateb ar y daflen wybodaeth atodol a ddarperir ar ddiwedd y ffurflen, gan ddefnyddio cod y cwestiwn (ee FTP1) i ddangos pa gwestiwn rydych chi'n ei ateb.

### Cyflwyno eich cais

**Dylech sganio ac e-bostio copïau o'r ffurflen gais hon, a'r dystiolaeth ddogfennol y gofynnir amdani, fel un ffeil PDF neu zip i: apat@gmc-uk.org. Rhaid** i bob copi fod yn glir ac yn ddarllenadwy (gwnewch yn siŵr bod pob gair yn y ddogfen yn ddarllenadwy). Rhaid i chi anfon dwy ochr y dogfennau atom, os oes unrhyw wybodaeth ar y cefn. Peidiwch ag anfon unrhyw rai o'ch dogfennau **gwreiddiol** drwy'r post.

**Bydd ffurflenni cais anghyflawn a thystiolaeth goll yn arafu eich cais cofrestru.**

### Ffioedd

Ar ôl cyflwyno'ch cais, dylech dalu'r ffi gywir drwy ffonio 0161 923 6602 (neu +44 161 923 6602 os ydych chi'n ffonio o'r tu allan i'r DU). Mae rhagor o wybodaeth am ffioedd ar ein gwefan (https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/managing-your-registration/fees-and-funding/fees-for-physician-associates-and-anaesthesia-associates#registration neu http://www.gmc-uk.org/fees) gan gynnwys y ffi graffu na ellir ei had-dalu.

**Cyn i chi gyflwyno eich cais a thalu'r ffi, dylech wneud yn siŵr eich bod yn bwriadu cwblhau'r broses gyda ni neu eich bod yn fodlon talu'r ffi craffu os nad ydych am ei chwblhau.**

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan ddaw eich cais a'ch taliad i law, byddwn yn ei asesu ac yn dilysu'r dystiolaeth ddogfennol rydych wedi'i chyflwyno. Rydym yn ceisio gwneud hyn o fewn pum diwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd angen unrhyw dystiolaeth arall arnom.

Pan fyddwch wedi darparu'r holl wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen arnom, byddwch yn cael eich gwahodd i gwblhau gwiriad adnabod (https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-the-register/registration-applications/guidance-on-identity-checks/how-do-i-complete-my-identity-check-using-the-app). Bydd gennych dri mis i'w gwblhau. Ar ôl ei gwblhau, byddwn yn gwneud penderfyniad ar eich cais cofrestru.

### Beth os bydd rhywbeth yn newid?

Ar ôl cyflwyno eich cais, os bydd rhywbeth yn digwydd a allai effeithio ar yr atebion rydych chi wedi'u rhoi, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

Ysgrifennwch yn glir mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU
Rhaid i bob dyddiad gael ei ysgrifennu yn y fformat **DD/MM/BBBB**
Os oes angen mwy o le arnoch chi, defnyddiwch y daflen wybodaeth atodol ar ddiwedd y ffurflen hon

**Eich manylion personol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeirnod y GMC | A | (Os nad oes gennych chi gyfeirnod y GMC, byddwn yn rhoi un i chi pan fyddwn yn cael eich cais.) | |
| Enw teuluol neu gyfenw | | | |
| Enw cyntaf | | | |
| Enwau eraill | | | |
| Dyddiad geni | D D M M B B B B | Rhywedd (gwryw/benyw/gwell gen i beidio â dweud) | |

**Eich manylion cyswllt**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriad llawn | | | |
| Cod post | | Gwlad | |
| Rhif ffôn cartref | Rhif ffôn gwaith | Rhif ffôn symudol | |
| | | | |
| E-bost | | | |

## Eich cymhwyster cydymaith anaesthesia sylfaenol

Rydym yn deall y gallech fod wedi ennill cymhwyster lefel uwch yn nes ymlaen. Ond dim ond un cymhwyster sylfaenol y byddwn yn ei arddangos ar y gofrestr ar-lein i ddangos pryd y gwnaethoch chi gymhwyso gyntaf.

| Teitl llawn eich cymhwyster cydymaith anaesthesia | Enw a chyfeiriad darparwr y cwrs neu'r brifysgol a ddyfarnodd eich cymhwyster | Dyddiad y cafodd y cymhwyster ei ddyfarnu |
|---|---|---|
| | | DD/MM/BBBB |

## Eich profiad gwaith

Rhowch eich hanes gwaith o'r pum mlynedd diwethaf isod, gan ddechrau gyda'r un diweddaraf. Dylech gynnwys manylion llawn unrhyw waith gofal iechyd, ac unrhyw adegau pan oeddech yn gweithio mewn swydd nad oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd, neu os oeddech chi'n ddi-waith.

- Rhowch gyfrif am yr holl brofiad gwaith yn ystod y 5 mlynedd diwethaf
- Dylech gynnwys manylion llawn unrhyw waith gofal iechyd, ac unrhyw bryd roeddech chi'n gweithio mewn swydd nad oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd, neu os oeddech chi'n ddi-waith.
- Rhaid ysgrifennu pob dyddiad yn y fformat **dd/mm/bbbb**
- Peidiwch â gadael bylchau o fwy na 28 diwrnod nad oes cyfrif amdanynt.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau eraill:

- Swydd gofal iechyd arall
- Di-waith
- Absenoldeb Mamolaeth
- Absenoldeb Astudio
- Gwyliau, Seibiant gyrfa

| **Dyddiad dechrau** | **Dyddiad gorffen** | **Teitl math o swydd gofal iechyd neu fanylion gwaith/gweithgarwch ar gyfer y cyfnod hwn** | **Enw a lleoliad y cyflogwr/sefydliad lle buoch yn gweithio (os yw'n berthnasol)** | **Gwlad** | **Rhan amser (RhA) neu amser llawn (ALl)** | **Oriau yr wythnos yr oeddech yn gyflogedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |
| DD/MM/BBBB | DD/MM/BBBB | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Ffurflen geirda cyflogwr

Os ydych chi wedi gweithio ym maes gofal iechyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, bydd angen i chi ychwanegu geirda ar gyfer tri mis diweddaraf eich cyflogaeth. Os oes gennych fwy nag un cyflogwr gofal iechyd yn ystod y cyfnod hwn, bydd angen geirdaon arnom gan bob cyflogwr.

Gallwch ddarllen ein tudalen ganllawiau ar lenwi ffurflen geirda cyflogwr (https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-our-registers/registration-applications/employer-references-for-pas-and-aas) lle gallwch hefyd lwytho'r ffurflen berthnasol i lawr.

- Ffurflen geirda cyflogwr (chwiliwch am **APA5** ar ein gwefan) i'r rheini sy'n gweithio fel cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia mewn amgylcheddau clinigol. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi gan glinigydd goruchwyliol sy'n feddyg sydd wedi cofrestru gyda'r GMC.
- Mae fersiwn arall o'r ffurflen (chwiliwch am **APA17** ar ein gwefan) ar gael i'r rhai y mae eu cyflogaeth ddiweddaraf wedi bod mewn swydd gofal iechyd nad yw'n swydd cydymaith meddygol/cydymaith anaesthesia, neu'r rhai sy'n gweithio mewn swyddi addysg cymdeithion meddygol/cymdeithion anaesthesia. Dim ond rheolwr llinell neu oruchwyliwr yr ymgeisydd all lenwi'r ffurflen yn lle meddyg sy'n ymarfer.

Ar ôl iddo lofnodi'r ffurflen geirda, dylech ei hatodi i'ch cais.

### Eich hanes cofrestru a thrwyddedu ⓘ

Rhaid i chi ddarparu manylion yr holl awdurdodau rheoleiddio meddygol lle rydych wedi meddu ar gofrestriad a/neu drwydded yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Gallai peidio â gwneud hynny achosi oedi sylweddol i'ch cais a/neu beryglu eich cofrestriad yn y dyfodol. Os oes angen rhagor o le arnoch, defnyddiwch y daflen wybodaeth atodol ar ddiwedd y ffurflen hon.

Ydych chi wedi meddu ar gofrestriad neu drwydded gydag unrhyw awdurdod gofal iechyd yn y DU neu dramor yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

**Ticiwch naill ai:** ☐ **YDW** ☐ **NAC YDW**

Atebwch 'Ydw' uchod os ydych chi'n meddu ar gofrestriad neu drwydded gyda'r canlynol ar hyn o bryd, neu wedi meddu ar hynny yn y gorffennol:

- Rheoleiddwyr yn y DU fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.
- Y GMC os ydych chi wedi cofrestru gyda ni fel meddyg ar hyn o bryd neu yn y gorffennol.
- Awdurdod gofal iechyd y tu allan i'r DU.

**Nid oes angen i chi gynnwys cofrestriad gwirfoddol gydag FPA.**

**Os 'Ydw', nodwch y manylion isod:**

| Y wlad lle'r oedd gennych gofrestriad neu drwydded | Yr awdurdod rheoleiddio iechyd a ddyfarnodd y cofrestriad neu'r drwydded | Y proffesiwn rydych wedi meddu ar gofrestriad neu drwydded ar ei gyfer | Dyddiad dechrau | Yn dal wedi'ch cofrestru neu'ch trwyddedu? | Dyddiad gorffen | CCPS wedi'i hamgáu? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |

Ysgrifennwch yn glir mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU
Rhaid i bob dyddiad gael ei ysgrifennu yn y fformat **DD/MM/BBBB**
Os oes angen mwy o le arnoch chi, defnyddiwch y daflen wybodaeth atodol ar ddiwedd y ffurflen hon

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |
| | | | DD/MM/BBBB | YDW/ NAC YDW | DD/MM/BBBB | OES/NAC OES |

Bydd angen i chi gyflwyno Tystysgrif Statws Da (CGS) gan bob un o'r awdurdodau rheoleiddio iechyd rydych wedi'u rhestru uchod.
Bydd angen i chi wneud hyn hyd yn oed os nad ydych chi wedi gweithio yn y wlad honno.
Rhaid i'r CGS

- gynnwys yr holl gyfnodau yr oeddech wedi'ch cofrestru/yn gweithio yn y wlad dramor
- cadarnhau pa broffesiwn sydd wedi'i gynnwys yn y cofrestriad/trwydded
- cadarnhau nad ydych wedi cael eich gwahardd na'ch atal rhag ymarfer
- cadarnhau nad yw'r awdurdod rheoleiddio yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n codi amheuaeth ynghylch eich statws da.

Dim ond am dri mis o'u dyddiad cyhoeddi y mae Tystysgrifau Statws Da yn ddilys.
Os nad yw eich tystysgrif ar gael yn Saesneg, bydd angen i chi ddarparu cyfieithiad hefyd.

Ewch i'n gwefan (https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-our-registers/registration-applications/certificate-of-current-professional-status-for-pas-and-aas) i gael rhagor o wybodaeth am dystiolaeth o'ch statws da a chyfieithiadau.

## Datganiadau: Canllawiau i gymdeithion anaesthesia

Yn adrannau nesaf eich cais, gofynnir i chi am eich iechyd, eich addasrwydd i ymarfer, a'ch yswiriant a'ch indemniad. I'ch helpu i ddeall eich cyfrifoldebau ac i ateb y cwestiynau hyn, darllenwch ein canllawiau ategol yn gyntaf. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/what-to-tell-us-pa-aa

Os oes angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y daflen wybodaeth atodol a ddarperir ar ddiwedd y ffurflen, gan ddefnyddio cod y cwestiwn (ee FTP1) i ddangos pa gwestiwn rydych chi'n ei ateb.

Llenwch y datganiadau isod drwy roi cylch o amgylch OES neu NAC OES ar gyfer pob cwestiwn.

| | | |
|---|---|---|
| H1 | **A oes darparwr cwrs, prifysgol neu gyflogwr wedi mynegi pryderon ynghylch sut oeddech chi'n rheoli cyflwr iechyd, a arweiniodd at broses ffurfiol?**<br>Gallai'r broses ffurfiol honno fod wedi ceisio eich cefnogi chi, neu ymchwilio i'r pryderon. Fel arfer, uwch reolwr neu reolwr adnoddau dynol, pwyllgor, gwrandawiad neu debyg sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd ar ôl i'r broses ddod i ben.<br><br>Ddim yn siŵr? Edrychwch ar ein canllawiau ar reoli pryderon iechyd. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/healthq1-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Beth yw'r cyflwr, a sut a phryd roedd eich ffordd o'i reoli wedi effeithio ar eich ymarfer proffesiynol neu eich astudiaethau.<br>• Gwybodaeth am y broses ffurfiol, pwy oedd yn rhan ohoni a beth oedd y canlyniad.<br>• Manylion unrhyw driniaeth rydych chi wedi'i chael.<br>• Statws y cyflwr nawr (ee wedi cael ei ddatrys, yn cael ei reoli, triniaeth yn parhau). | OES/<br>NAC OES |
| *Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):* | | |

| | | |
|---|---|---|
| H2 | **A oes darparwr cwrs, prifysgol neu gyflogwr wedi mynegi pryderon ynghylch sut roedd eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i astudio neu weithio, a hynny wedi arwain at broses ffurfiol?**<br><br>Gallai'r broses ffurfiol honno fod wedi ceisio eich cefnogi chi, neu ymchwilio i'r pryderon. Fel arfer, uwch reolwr neu reolwr adnoddau dynol, pwyllgor, gwrandawiad neu debyg sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd ar ôl i'r broses ddod i ben.<br><br>Ddim yn siŵr? Darllenwch ein canllawiau ar bryderon iechyd sy'n effeithio ar astudiaethau neu ymarfer. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn www.gmc-uk.org/healthq2-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Beth yw'r cyflwr, sut a phryd y gwnaeth effeithio ar eich ymarfer proffesiynol neu eich astudiaethau.<br>• Gwybodaeth am y broses ffurfiol, pwy oedd yn rhan ohoni a beth oedd y canlyniad.<br>• Manylion unrhyw driniaeth rydych chi wedi'i chael.<br>• Statws y cyflwr nawr (ee wedi cael ei ddatrys, yn cael ei reoli, triniaeth yn parhau). | OES/<br>NAC OES |

*Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):*

## Eich addasrwydd i ymarfer

Mae angen i ni ofyn i chi am wybodaeth er mwyn i ni allu gwneud yn siŵr eich bod yn bodloni'r safonau ymddygiad a moeseg cyn i ni eich cofrestru. Bydd y dystiolaeth a roddwch am eich addasrwydd i ymarfer yn llywio ein hasesiad.

Dylech ddarllen ein canllawiau cyn ateb y cwestiynau yn y datganiad addasrwydd i ymarfer. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/what-to-tell-us-pa-aa

Yr unig wybodaeth sydd ei hangen arnom yw'r ffactorau a allai effeithio ar eich gallu i weithio fel cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia neu a allai leihau ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn hwn. Bydd y canllawiau'n eich helpu i benderfynu beth sydd angen i chi ei ddweud wrthym. Efallai y byddwn yn gwrthod eich cofrestru os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni nad yw'n wir, neu os na fyddwch yn dweud rhywbeth y dylech fod wedi'i ddweud wrthym. Ond nid yw'r ffaith eich bod yn dweud wrthym am rywbeth yn golygu na allwch ymuno â'r gofrestr. Mae'r holl wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

Llenwch y datganiadau isod drwy roi cylch o amgylch OES neu NAC OES ar gyfer pob cwestiwn.

| | | |
|---|---|---|
| FTP1 | **A oes rhybuddiad neu euogfarn ffurfiol wedi'i rhoi yn eich erbyn gan yr heddlu neu lys?**<br><br>Os yw eich rhybuddiad neu'ch euogfarn wedi'i gwarchod gan y gyfraith yn y DU, atebwch 'Nac oes'.<br><br>Ddim yn siŵr? Darllenwch ein canllawiau am rybuddion ac euogfarnau. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/ftpq1-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Dyddiad y rhybuddiad neu'r euogfarn, a beth oedd y gosb.<br>• Manylion yr amgylchiadau a arweiniodd at y rhybuddiad neu'r euogfarn.<br>• Wnaethoch chi ddweud wrth eich cyflogwr neu ddarparwr y cwrs/prifysgol ai peidio, ac os felly, beth oedd y canlyniad. | OES/<br>NAC OES |
| *Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):* | | |

| | | |
|---|---|---|
| FTP2 | **A oes unrhyw gamau eraill wedi'u cymryd yn eich erbyn gan yr heddlu neu sefydliad tebyg?**<br><br>Darllenwch y canllawiau cyn ateb y cwestiwn hwn, gan fod rhai camau nad oes angen i chi roi gwybod i ni amdanynt. Er enghraifft, **does dim angen** i chi ddweud wrthym am hysbysiadau cosb benodedig am droseddau traffig ffordd.<br><br>Ddim yn siŵr? Edrychwch ar ein canllawiau am gamau eraill. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/ftpq2-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Pa gamau gafodd eu cymryd, a beth oedd y canlyniad.<br>• Manylion yr amgylchiadau a arweiniodd at y camau.<br>• Wnaethoch chi ddweud wrth eich cyflogwr neu ddarparwr y cwrs/prifysgol ai peidio, ac os felly, beth oedd y canlyniad. | OES/<br>NAC OES |
| *Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):* | | |

| | | |
|---|---|---|
| FTP3 | **A oes darparwr cwrs neu brifysgol wedi mynegi pryderon ynghylch eich proffesiynoldeb neu eich ymddygiad, a hynny wedi arwain at broses ffurfiol?**<br><br>Gallai'r broses ffurfiol honno fod wedi ceisio eich cefnogi chi, neu ymchwilio i'r pryderon. Fel arfer pwyllgor, gwrandawiad neu debyg sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd ar ôl i'r broses ddod i ben. Os cawsoch rybudd llafar nad oedd wedi arwain at unrhyw weithred nac ymchwiliad yn eich erbyn, atebwch 'Nac oes'.<br><br>Ddim yn siŵr? Darllenwch ein canllawiau am bryderon darparwyr cyrsiau sy'n arwain at broses. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/ftpq3-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Ynghylch natur y pryderon<br>• Enw darparwr y cwrs neu'r brifysgol a oedd wedi mynegi pryderon.<br>• Y broses yr oeddech wedi'i dilyn, a beth oedd y canlyniad. | OES/<br>NAC OES |

*Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):*

| | | |
|---|---|---|
| FTP 4 | **A oes cyflogwr wedi mynegi pryderon am eich perfformiad proffesiynol, eich proffesiynoldeb neu'ch ymddygiad, a hynny wedi arwain at broses ffurfiol?**<br><br>Gallai'r broses ffurfiol honno fod wedi ceisio eich cefnogi chi, neu ymchwilio i'r pryderon. Fel arfer, uwch reolwr neu reolwr adnoddau dynol, pwyllgor, gwrandawiad neu debyg sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd ar ôl i'r broses ddod i ben. Mae angen i chi hefyd ddweud wrthym a oedd cyflogwr wedi mynegi pryderon hyd yn oed os nad oeddech yn gweithio fel cydymaith anaesthesia.<br><br>Os cawsoch rybudd llafar nad oedd wedi arwain at unrhyw weithred nac ymchwiliad yn eich erbyn, atebwch 'Nac oes'.<br><br>Ddim yn siŵr? Darllenwch ein canllawiau am bryderon darparwyr cyrsiau sy'n arwain at broses. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn: www.gmc-uk.org/ftpq4-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Ynghylch natur y pryderon<br>• Enw'r cyflogwr a oedd wedi mynegi pryderon.<br>• Y broses yr oeddech wedi'i dilyn, a beth oedd y canlyniad. | OES/<br>NAC OES |

*Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):*

| | | |
|---|---|---|
| FTP 5 | **A oes sefydliad wedi ymchwilio i bryderon am eich addasrwydd i ymarfer neu wedi gwrthod eich cofrestru, naill ai fel cydymaith meddygol/cydymaith anaesthesia, neu fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall?**<br><br>Gallai'r sefydliad fod yn rheoleiddiwr, corff proffesiynol gyda chofrestr wirfoddol (gan gynnwys coleg brenhinol neu gyfadran), corff trwyddedu, bwrdd arholi, crwner, neu sefydliad tebyg.<br><br>Ddim yn siŵr? Darllenwch ein canllawiau ar ymchwiliadau gan sefydliadau ac achosion ohonynt yn gwrthod cofrestru. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn www.gmc-uk.org/ftpq5-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Beth oedd y pryderon.<br>• Enw'r sefydliad a oedd wedi ymchwilio i'r pryderon.<br>• Beth oedd canlyniad yr ymchwiliad. | OES/<br>NAC OES |

*Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):*

| | | |
|---|---|---|
| FTP 6 | **A oes honiad o gamymarfer neu esgeulustod meddygol wedi'i wneud yn eich erbyn, a gafodd ei setlo y tu allan i'r llys neu ei gadarnhau?**<br><br>Os yw proses yr honiad yn dal i fynd rhagddi, atebwch 'oes'.<br><br>Ddim yn siŵr? Darllenwch ein canllawiau am honiadau o gamymarfer ac esgeulustod. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn www.gmc-uk.org/ftpq6-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' oedd eich ateb, rhowch fanylion, gan gynnwys:**<br>• Beth oedd sail yr honiad.<br>• Beth oedd y canlyniad. | OES/<br>NAC OES |
| *Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):* | | |
| FTP 7 | **A oes unrhyw beth arall am eich perfformiad proffesiynol, eich proffesiynoldeb neu eich ymddygiad a allai arwain at bryder am eich addasrwydd i ymarfer fel cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn y DU?**<br><br>Ddim yn siŵr? Edrychwch ar ein canllawiau am bryderon eraill. Mae'r canllawiau ar gael ar ein gwefan yn www.gmc-uk.org/ftpq7-pa-aa<br><br>**Os mai 'oes' yw eich ateb**, rhowch wybod i ni am y pryderon eraill. | OES/<br>NAC OES |
| *Blwch rhagor o wybodaeth (os ydych chi wedi ateb 'oes'):* | | |

## Datganiadau: Yswiriant ac indemniad

Rhaid i chi ddarllen a chadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y datganiad yswiriant ac indemniad isod.

Os nad ydych yn siŵr am ein gofynion, darllenwch ein canllawiau ar yswiriant ac indemniad (https://www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/managing-your-registration/information-for-physician-associates-and-anaesthesia-associates-on-the-register/insurance-indemnity-and-medico-legal-support).

**Yswiriant ac indemniad**

Rwy'n cadarnhau:

Mae gennyf mewn grym, neu bydd gennyf mewn grym erbyn i mi ddechrau ymarfer fel cydymaith cofrestredig, drefniant indemniad, polisi yswiriant neu gyfuniad sy'n darparu yswiriant priodol a digonol mewn perthynas â'm hymarfer fel cydymaith. Rwy'n deall y gallai methu â chynnal trefniadau yswiriant ac indemniad priodol a digonol roi fy nghofrestriad yn y fantol.

| | |
|---|---|
| **Rwy'n deall ac yn derbyn y datganiad yswiriant ac indemniad** | ☐ |

Os cafodd y datganiad hwn ei wneud fwy na thri mis yn ôl, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi lenwi un newydd cyn i ni wneud penderfyniad ar eich cais.

Os bydd eich amgylchiadau personol yn newid mewn ffyrdd sy'n effeithio ar y datganiad hwn, rhaid i chi lenwi Datganiad Addasrwydd i Ymarfer newydd ar unwaith.

Os na fyddwch chi'n darparu gwybodaeth gywir a gwir, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod eich cais.

# Datganiadau: Terfynol

Rhaid i chi ddarllen a chadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y datganiad yswiriant ac indemniad a'r datganiadau terfynol isod.

**Datganiad Terfynol**

Rwy'n deall ac yn cadarnhau:

1. y bydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn gwneud unrhyw ymholiadau y mae'n eu hystyried yn briodol i gadarnhau fy addasrwydd i ymarfer
2. y bydd y GMC, ei gynrychiolwyr, ac unrhyw asiant arall y mae'r GMC yn gofyn iddo gynnal archwiliadau ar ei ran, yn gwneud unrhyw wiriadau angenrheidiol i ddilysu'r wybodaeth rwyf wedi'i darparu
3. y bydd ymholiadau'n cael eu gwneud cyn ac ar ôl i mi gofrestru, gan gynnwys ymholiadau dramor, a allai olygu trosglwyddo fy nata personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd
4. y bydd y person sy'n derbyn unrhyw ymholiadau yn darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani
5. y bydd fy nata personol yn cael ei roi i'm canolwyr, cyrff y llywodraeth a thrydydd partïon eraill fel sy'n rhesymol angenrheidiol
6. bod yr wybodaeth rwyf wedi'i chynnwys yn fy nghais yn gywir ac yn wir
7. os ydw i wedi gwneud datganiad ffug, neu wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennau ffug i gefnogi fy nghais, y gall y GMC atal neu dynnu fy nghofrestriad yn ôl a rhoi gwybod i'r heddlu
8. er mwyn diogelu'r cyhoedd, y gall y GMC rannu'r wybodaeth a ddarperir gyda fy nghais neu a dderbynnir drwy asesu fy nghais, a/neu fy ngwybodaeth gofrestru, â sefydliadau perthnasol yn y DU ac yn rhyngwladol
9. Rwyf wedi darllen Arfer meddygol da (www.gmc-uk.org/gmp) Rwy'n deall bod rhaid i mi weithio yn unol â'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn y ddogfen, yn ogystal â'i chanllawiau esboniadol, ac rwy'n deall bod dyletswydd arnaf i

ddweud wrth y GMC am unrhyw achosion troseddol neu reoleiddiol. Rwyf yn cydnabod y bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn y canllawiau hyn yn peryglu fy nghofrestriad

| **Rwy'n deall ac yn derbyn y datganiadau terfynol** | ☐ |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | Dyddiad | D D M M 2 0 B B |

**Gwnewch eich llofnod fel y mae'n ymddangos ar eich pasbort neu gerdyn adnabod**

| | |
|---|---|
| Enw mewn priflythrennau | |

Rhowch eich llofnod arferol a'ch enw gan ddefnyddio nodau o'ch iaith gyntaf, os yw'n berthnasol

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Enw mewn priflythrennau | |

Ni chaiff y datganiad hwn fod wedi cael ei wneud fwy na thri mis cyn yr adeg y byddwn yn gwneud penderfyniad ar eich cais. Os na chaiff eich cais ei brosesu o fewn y cyfnod hwn am unrhyw reswm, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi lofnodi datganiad arall.

| **Rhowch god y cwestiwn yn y golofn isod** | **Taflen wybodaeth atodol ar gyfer cais i'r GMC**<br>Os oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y gofod isod gan ddyfynnu cod y cwestiwn (ee FTP1) i ddangos pa gwestiwn rydych chi'n ei ateb. |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Rhowch god y cwestiwn yn y golofn isod** | **Taflen wybodaeth atodol ar gyfer cais i'r GMC**<br>Os oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y gofod isod gan ddyfynnu cod y cwestiwn (ee FTP1) i ddangos pa gwestiwn rydych chi'n ei ateb. |
| | |

| | |
|---|---|
| | |